**CABINET**
**DYDD MAWRTH, 12 RHAGFYR 2017**

Cofnodion cyfarfod Cabinet Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Clwyd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Mawrth, 12 Rhagfyr 2017

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Aaron Shotton (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Chris Bithell, Derek Butler, Christine Jones, Ian Roberts a Carolyn Thomas.

**YMDDIHEURIAD:**
Y Cynghorydd Billy Mullin

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol ac Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd.

**100. DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim datganiad.

**101. RHAGOLWG ARIANNOL A CHAM DAU Y GYLLIDEB 2018/19**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad ar Ragolwg Ariannol a Cham Dau Cyllideb 2018/19 a oedd yn gofyn bod yr aelodau'n ystyried adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, yr oedd pob aelod wedi cael gwahoddiad iddo, ar Gam Dau y gyllideb ac i wneud argymhellion i'r Cyngor Sir yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.

Cyflwynwyd y penderfyniadau drafft a wnaed gan y cyfarfod hwnnw o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i Aelodau'r Cabinet, sef:

1. *Wedi ystyried opsiynau cyllideb Cam 2, y dylid nodi'r adroddiad a'r cynigion.*
2. *Bod y camau sy'n weddill o'r broses o osod y gyllideb a'r cyfraddau amser yn cael eu nodi;*
3. *Bod y llythyr i Ysgrifenyddion y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Datganiadau Gwytnwch yn cael eu dosbarthu i'r holl Aelodau.*
4. *Bod manylion llawn yr asesiad o risgiau, effeithiau a chanlyniadau'r holl gynigion parthed y gyllideb ar gael i'w hadolygu ym mis Ionawr.*
5. *Bod Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd ac Addysg ac Ieuenctid yn cael eu cynnal ym mis Ionawr er mwyn edrych yn fanwl ar daliadau parcio ceir a chynigion par: cyllideb ysgolion, yn y drefn honno, cyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael ei wneud; a*
6. *Bod adroddiad yn adolygu'r broses o osod y gyllideb flynyddol yn cael ei baratoi ar gyfer y Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr 2018.*

Soniwyd yn benodol am y trefniadau ar gyfer Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd ac Addysg ac Ieuenctid a drefnwyd ar gyfer mis Ionawr i adolygu'r cynigion ar gyfer parcio ceir a'r gyllideb ysgolion a ddeilliodd o sylwadau'r

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol. O ganlyniad i gyfraddau amser ac oherwydd yr adroddir ar y gyllideb mewn tri cham erbyn hyn, barnwyd mai dyma'r ffordd orau i graffu ar faterion penodol fel rhan o'r broses.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod adborth yn cael ei dderbyn o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol gydag argymhelliad i'r Cyngor ar Gam 2 o strategaeth y gyllideb.

(b) Bod y camau sy'n weddill o'r broses o osod y gyllideb a'r cyfraddau amser yn cael eu nodi; a

(c) Bod 6 argymhelliad drafft y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol (gweler isod) yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo. Nododd a chymeradwyodd y Cabinet Gam 2 o'r gyllideb i'r Cyngor Sir ar yr amod fod cynigion penodol ar gyfer cyllidebau ysgolion a thaliadau parcio yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu perthnasol ym mis Ionawr i'w hadolygu yn llawn er mwyn iddyn nhw adrodd yn ôl cyn unrhyw gytundeb terfynol ar y ddau faes hwn.

*Argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol:*

1. *Wedi ystyried opsiynau cyllideb Cam 2, y dylid nodi'r adroddiad a'r cynigion.*
2. *Bod y camau sy'n weddill o'r broses o osod y gyllideb a'r cyfraddau amser yn cael eu nodi;*
3. *Bod y llythyr i Ysgrifenyddion y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Datganiadau Gwytnwch yn cael eu dosbarthu i'r holl Aelodau.*
4. *Bod manylion llawn yr asesiad o risgiau, effeithiau a chanlyniadau'r holl gynigion parthed y gyllideb ar gael i'w hadolygu ym mis Ionawr.*
5. *Bod Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd ac Addysg ac Ieuenctid yn cael eu cynnal ym mis Ionawr er mwyn edrych yn fanwl ar daliadau parcio ceir a chynigion par: cyllideb ysgolion, yn y drefn honno, cyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael ei wneud; a*
6. *Bod adroddiad yn adolygu'r broses o osod y gyllideb flynyddol yn cael ei baratoi ar gyfer y Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr 2018.*
7. *Bod y camau sy'n weddill o'r broses o osod y gyllideb a'r cyfraddau amser yn cael eu nodi; a*

**102. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd a dim ond un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 9.00 am a daeth i ben am 9.25 am)

..................................................

**Cadeirydd**